WG35.5-205

# PENNILLION CWYNFANUS

## ER COFFADWRIAETH AM

## Y Parch. Daniel Williams,

*Salem, Llangyfelach, Swydd Forganwg, yr hwn a fu farw Ebrill* 26, 1835.

---

## GAN Y PARCH. I. JONES,

*Staylittle, Swydd Drefaldwyn.*

---

Ganwyd D. W. yn yr Heolddu, yn Llangug. Bu yn bregethwr cynnorthwyol yn Salem a Gerazim am oddeutu 15eg mlynedd, yna neillduwyd ef yn fugail ar yr eglwys yn y lle olaf, lle y bu yn llafurio hyd derfyn ei oes. Yr ydoedd yn 69 oed pan fu farw; a gadawodd wraig a 6 o blant i alaru ar ei ol. Ei eiriau olaf wrth ei briod, gan ddodi ei law iddi, ydoedd, "*Ffarwel!*" "*Gobeithio nad felly Daniel,*" ebe hithau. Wedi hyny, rhoddodd y naill law yn y llall, a dywedodd, "*Arglwydd Iesu derbyn fy ysbryd!*" "*Yr Arglwydd a'ch cynnhalio,*" medd ei briod. "*Amen!*" medd yntau, gan anadlu yr anadl olaf.

---

1. NID yw canu galarnadau
Ddim yn anhawdd imi'n awr;
Colli fy nghyfeillion anwyl
'R ydwyf beunydd ar y llawr;
Daniel Williams a'm gadawodd
Ar y môr tymhestlog dû,
Ac a hwyliodd gyda'r awel,
'Mewn i'r Ganaan dawel fry.

2. 'Rwy'n adgofio gyda hiraeth,
Fel ei gwelais lawer gwaith,
'Dod yn serchog i'm haneddle,
Pan y byddai ar ei daith,
Wedi cael ei guro'n arw
Gan y gwynt a'r cenllysg mawr,
Yn y gwlaw ac yn yr eira,
Ne's y byddai bron i lawr.

3. Llawer gwaith y bu trwy Gymru
Yn cyhoeddi'r aberth drud;
Nid oes Sîr na ddarfu deithio,
Ar ei lled ac ar ei hyd;

Y2053 16750

Ond mae'n awr yn tawel orphwys
Ar yr orsedd freiniol fry,
Ac yn canu am ei gynnal
Yma'n nghanol grym y lli.

4. Gostyngeiddrwydd oedd ei fawredd,
Gostyngeiddrwydd oedd ei addurn ef;
O! mor addas oedd ei rodiad,
I orchymynion pur y nef;
Gwir Israeliad didwyll ydoedd,
Serchog, hawddgar, gyfaill llon;
Colli Daniel a fu'n achos
Dwys och'neidiau dan fy mron.

5. Llangyfelach ti ge'st golled,
Na wneir i fynu amser maith,
Cwympodd seren a'th arweiniodd
Tua Bethlem lawer gwaith;
Hi lewyrchodd yma'n ddysglaer,
Trwy rinweddau marwol glwy',
'R ochr draw mae yn llewyrchu,
Mewn dysgleirdeb canmil mwy.

6. Deffro awen, dyro gymorth
'Ro'i disgrifiad byr i maes,
Am ei agwedd yn cyhoeddi
Trefn iechydwriaeth gras;
Yn ei farn ac yn ei fywyd,
Ni wnaeth w'radwydd yn ei ddydd,
(Ac er garwed oedd y creigiau,)
Na llongddrylliad am y ffydd.

7. Tebyg iawn i Jacob ydoedd,
Pan b'ai wrth yr orsedd wiw,
Ac er gwaethaf angrhediniaeth,
Llwyddo byddai gyda Duw;
Ar ei weddi yn gyffredin,
Fe ddisgynai'r gwlith i lawr,
Hyn ro'i addurn ar ei bregeth,
Ne's y byddai'n elw mawr.

8. Nid yn ysgol un Gamaliel
Ei cymhwyswyd at ei waith;
Nid oedd ganddo ddoniau Virgil,
Na hyawdledd Cicero 'chwaith;
Ond derbyniodd well dysgeidiaeth,
Gwell hyawdledd a gwell dawn,
Wrth fyfyrio ar y cariad,
A eglurwyd un prydnhawn.

9. Pan ddarllenai ef ei destyn,
'Roedd ei olwg braidd yn syn,
Ond yn uniawn fe'm harweiniai
Draw i ben Calfaria fryn;
Yna ymadroddai'n fywiog,
Gyda gwres a pheraidd sain,
Am yr archoll, ol yr hoelion,
Ac effeithiau'r goron ddrain.

10. Iesu anwyl croeshoeliedig,
A'r bendithion yno sydd,
Bywyd i bechadur trwyddo,
A bregethai nos a dydd;
Cyngor hedd ac arfaeth foreu,
A gyhoeddai yn ddigryn,
Codwm erchyll gawd yn Eden,
Codi wedi'n ar y bryn.

11. Draw o Eden yr ehedai,
Dros y bryniau gyda brys,
Chwai y b'ai yn Gethsemane,
Gyda'r gwaed a chyda'r chwys;
Ac oddiyno i Golgotha,
Lle cawd prynedigaeth lawn,
Gwaeddai'n beraidd iawn "Gorphenwyd,
Rhoddodd Iesu ddwyfol iawn."

12. Wedi hyny byddai'n uniawn,
Gyda boreu'r trydydd dydd,
Pan orchfygodd Iesu angau,
Ac y daeth o'i rwymau'n rhydd;
Darluniai Grist yn d'od i fynu,
A bywyd miloedd yn ei law,

Rhai fydd berlau yn ei goron,
Yn y wlad yr ochr draw.

13. Gwych y medrai ef ddarlunio
Crist yn esgyn at y Tad,
Yno'n eiriol dros ei bobl,
Trwy rinweddau maith ei waed;
Dyma'r meusydd lle bu'n lloffa
Tywys breision lawer gwaith,
Lle'r arweiniai'r pererinion,
I gael ymborth ar eu taith.

14. O Gerazim ti ge'st golled,
Do yn wir, a cholled fawr,
Ti dderbyniaist ganwaith trwyddo,
Rad fendithion nef i lawr;
Ewch at Arglwydd y cynhauaf,
Atolygwch arno fe,
Fe all ddanfon i chwi eto,
Un yn gyflawn lanwo'i le.

15. Sîan yn awr sydd weddw unig,
Yma'n dringo'r tylau serth,
Mi ddymunwn iti " 'wyllys
Da preswylydd mawr y berth;"
A'i amddifaid blant annerchaf,
Ar y ffordd wrth fyn'd yn mlaen,
Boed Duw Daniel i chwi'n geidwad,
Yn y dŵr ac yn y tân.

16. Rwy'n terfynu hyn o ganu,
Ffarwel frawd a chyfaill gwych,
Fi sydd yma yn fy nagrau,
Mae dy wyneb dithau'n sych;
Yn dy gerbyd aethost adrau,
'Nawr yn sefyll yn dy ran,
Ar yr elor farch yn rhiwlun,
Mi ddo'f inau yn y man.

---

LLANFAIR: ARGRAFFWYD DROS EVAN JONES.